**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced Subsidiary/Advanced**

552/51

# ASTUDIAETHAU CREFYDDOL RS 2a

## CREFYDDAU'R GORLLEWIN

**Cyflwyniad i naill ai Islam neu Iddewiaeth**

P.M. DYDD IAU, 8 Mehefin 2006

(1 awr)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch gwestiynau o **un** Adran **yn unig**, **naill ai** Adran A **neu** Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd ar wahân.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 20 marc ar gael ar gyfer pob cwestiwn. Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Fe'ch atgoffir o'r angen am Gymraeg da ac am gyflwyniad clir yn eich atebion.

Dylid ateb pob cwestiwn mewn rhyddiaith ddi-dor. Asesir ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig ym mhob ateb.

*Atebwch gwestiynau o* **un** *adran* **yn unig**, **naill ai** *Adran A* **neu** *Adran B*.

## ADRAN A: Cyflwyniad i Islam

*Atebwch* **Gwestiwn 1** *ac* **un** *cwestiwn arall*.

**1.**

> Mewn Islam, mae statws arbennig bywyd teuluol yn adlewyrchu gofal y Qur'an am hawliau'r teulu. Gellir gweld trefn gymdeithasol y teulu traddodiadol, rolau a chyfrifoldebau ei aelodau a gwerthoedd teuluol yn y gyfraith. Mae'r teulu yn cynnwys y tad, ei wraig neu wragedd, meibion a merched di-briod, a meibion priod gyda'u gwragedd a'u plant, a phob un â'u rôl benodol o fewn trefn y teulu. Mae'n gweithredu fel yr uned gymdeithasol ac economaidd sylfaenol.
>
> Addaswyd o *Islam: The Straight Path*, John L Esposito

*(a)* Archwiliwch rôl **a** phwysigrwydd y teulu mewn Islam. [10]

*(b)* Eglurwch ddysgeidiaeth Fwslimaidd am ysgariad. [10]

**2.** *(a)* Archwiliwch y cysyniad Mwslimaidd o jihad. [10]

*(b)* 'Jihad yw'r ymarfer pwysicaf mewn Islam nawr.'
Aseswch y safbwynt hwn. [10]

**3.** *(a)* Archwiliwch bwysigrwydd y Qur'an i Fwslimiaid. [10]

*(b)* 'Er mwyn deall Islam, mae'n angenrheidiol deall bywyd Muhammad yn ogystal â'r Qur'an.'
Aseswch y safbwynt hwn. [10]

## ADRAN B: Cyflwyniad i Iddewiaeth

*Atebwch* **Gwestiwn 1** *ac* **un** *cwestiwn arall.*

**1.**

> Cyfeirir at bum llyfr cyntaf y Beibl Hebraeg fel y Pumllyfr. Yn ôl traddodiad, roedd y llyfrau hyn yn waith Moses a siaradodd 'wyneb yn wyneb, fel mae dyn yn siarad â ffrind', gyda Duw. Maent yn cynnwys y rheolau sylfaenol y mae'n rhaid i Iddewon eu cadw fel rhan o'r cytundeb Cyfamodol.

*(a)* Amlinellwch wahanol safbwyntiau am awduraeth y Pumllyfr. [10]

*(b)* Eglurwch y syniad Iddewig o'r *cytundeb Cyfamodol*. [10]

**2.** *(a)* Archwiliwch bwysigrwydd y Codau a Dyfarniadau *(Responsa)* mewn Iddewiaeth. [10]

*(b)* 'Iddewiaeth Rabbinaidd yw'r unig wir Iddewiaeth.'
Aseswch y datganiad hwn. [10]

**3.** *(a)* Eglurwch bwysigrwydd gŵyl y Pesach i Iddewiaeth. [10]

*(b)* 'Mae Iddewiaeth yn poeni gormod am y gorffennol; dylai fod yn fwy parod i newid gyda'r amserau.'
Aseswch y datganiad hwn. [10]